Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
The role of arts and culture in addressing poverty and social exclusion / Rôl celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol
CWLC(5) CP16
Ymateb gan Cyngor Gwynedd / Evidence from Gwynedd Council

Ers rhai blynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid wedi cydnabod y potensial all diwylliant a'r celfyddydau eu cynnig wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol. Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Datblygiad Storiel ym Mangor a gweithgareddau cymunedol, addysgol a gwirfoddoli cysylltiedig
- Cefnogaeth i gwmnïau a sefydliadau celfyddydol i gynnal rhaglenni celfyddydol ar draws Gwynedd trwy'r Grantiau Strategol i'r Celfyddydau
- Comisiynu gwaith trwy'r Uned Celfyddydau Cymunedol i fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol, taclo unigrwydd, pontio cenedlaethau a chefnogi mentergarwch gan gynhyrchwyr yn lleol.
- Prosiect Creu Cymunedau Cyfoes Caernarfon
- Gweithgareddau'r Gwasanaeth Archifau trwy'r Swyddogion Addysg Archifau ac Amgueddfeydd
- Gweithgareddau darllen a gweithgareddau teuluol gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn ogystal â gweithgareddau llyfrau ar bresgripsiwn a phrosiect cydweithio efo Macmillan ar wasanaethau gwybodaeth cancr.
- Gweithgareddau'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion wrth gefnogi tair prif elfen:
    - Mynediad at adnoddau darllen hamdden i bob plentyn oed Cynradd yn y sir
    - Cefnogi gweithgareddau fel Darllen Dros Gymru sy'n rhoi cyfle i blant drafod llyfrau a chystadlu gyda chyflwyniad dramatig.
    - Cefnogi ymweliadau awduron, storïwyr a defnyddio technegau drama i ddod a llyfrau'n fyw ac i annog darllen.
- Rôl arweiniol Cyngor Gwynedd gyda Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd

- Prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri - LleCHI sy'n ceisio adfywio cymunedau'r bröydd Llechi yng Ngwynedd trwy dreftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau sy'n ran o enwebiad Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru
- Rhoddir lle amlwg hefyd i fuddion celfyddydau wrth ymateb i'r agenda Lles, Addysg ac Adfywio o fewn Cynllun Celfyddydau Gwynedd.

O ran ymateb i'r cwestiynau sydd wedi eu codi gan y Pwyllgor:

- Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru wedi bod o ran gwella cyfranogiad a mynediad at ddiwylliant i bobl mewn tlodi?

Roedd gwaith comisiwn y Farwnes Kay Andrews i archwilio cyfleon i leihau amddifadedd trwy ddiwylliant a threftadaeth yn effeithiol iawn wrth symud yr agenda yma ymlaen yng Nghymru ac mae'r rhaglen Cyfuno a ddeilliodd o'r adroddiad hwnnw wedi bod yn ddull effeithiol i geisio ymateb i wella cyfranogiad a mynediad. Er bod llawer o waith wedi bod yn digwydd yn lleol yn y gorffennol, heb y weledigaeth hon a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y byddai unrhyw strwythurau cydweithio ffurfiol wedi eu sefydlu yng Ngwynedd i ymateb i'r cyfle hwn.

Gan bod y gweithgareddau Cyfuno wedi canolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, nid yw'r un cyfleon wedi bodoli mewn rhannau eraill o Gymru a Gwynedd sy'n aml yn 'cuddio' tlodi a mynediad at wasanaethau yn ein hardaloedd gwledig. Nid oes adnoddau sylweddol wedi bodoli o fewn y rhaglen ychwaith, ac felly bu'n her barhaol i geisio darparu gweithgareddau a chyd-lynu'r rhwydwaith ar gost ychwanegol isel neu ddim cost i bartneriaid. Nid yw'n hollol glir ychwaith faint o berchnogaeth sydd i'r maes hwn y tu hwnt i MALD a Cadw o fewn i Lywodraeth Cymru.

- Pa mor effeithiol y mae ymdrechion cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (sef Cyngor y Celfyddydau, yr Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a llywodraeth leol wedi bod i ddefnyddio diwylliant i drechu tlodi;

Mae'r cyrff a noddir gan y Llywodraeth wedi bod yn effeithiol wrth geisio targedu gweithgareddau a nawdd gan ddefnyddio diwylliant i drechu tlodi. Mae eu

hymrwymiad trwy'r Rhwydwaith Cyfuno wedi sicrhau ffocws i weithgareddau a chefnogaeth gan gyrff cenedlaethol. Mae'r Cyngor wedi cydweithio'n effeithiol gyda rhan ddeiliaid Cenedlaethol (e.e. Llyfrgell Genedlaethol, Comisiwn Brenhinol, Amgueddfa Cymru) trwy brosiect Storiel, Cyfuno ac enwebiad Treftadaeth Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru i geisio creu cyfleon trwy ddiwylliant yn ein cymunedau mwyaf bregus.

- Pa effaith mae rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru wedi'i chael ar ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi?

Un o brif amcanion y Cyngor wrth gytuno i fod yn ran o beilot Cyfuno oedd i fod yn ran o brosiect cenedlaethol allai roi'r cyfle i ni ddeall yn well yr effeithiau allai ymyraethau diwylliannol eu cael wrth greu cyfleon i fynd i'r afael â thlodi oherwydd yr her barhaol sy'n bodoli o fedru mesur effaith ein hymyraethau. Rydym wedi gweld peth effeithiau cadarnhaol yng Ngwynedd trwy'r Rhwydwaith Cyfuno ac mae esiamplau o rieni sydd wedi mynd i addysg bellach yn sgil ein hymyraethau a disgyblion oedd mewn peryg o ddisgyn allan o addysg ffurfiol wedi pontio'n llwyddiannus rhwng addysg cynradd ac uwchradd. Mae enghreifftiau hefyd o unigolion a theuluoedd sydd wedi cael agor eu llygaid i'r cyfleon sydd ar gael yn ein sefydliadau diwylliannol. Mae gweithgareddau megis y Llofnod Dysgu Teulu wedi bod yn effeithiol wrth hybu addysg o fewn yr uned deuluol ac agor mynediad i'n sefydliadau diwylliannol. Wedi dweud hynny, mae capasiti i wireddu'r cyfleon i'w llawn botensial yn brin ac o dan fygythiad o doriadau. Heb barhad technegau a fframweithiau i fesur effaith a chanlyniadau ein hymyraethau, bydd yn anodd cyfiawnhau parhad rhai gweithgareddau yn y dyfodol a heb gyllidebau ategol rhaglenni megis Cymunedau'n Gyntaf, rydym eisoes yn gweld dirywiad yn ein gallu i gynnal a chefnogi rhai gweithgareddau.

Gyda'r Rhaglen Cyfuno bresennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019, mae risg y bydd llawer o'r weithgarwch yn dirwyn i ben gan na fydd modd cyflogi Cydlynydd y Rhwydwaith y tu hwnt i'r dyddiad hwn heb adnoddau ychwanegol. Mae cael gwybod beth yw strategaeth a bwriadau'r Llywodraeth yn fater brys wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol a chynnal y bartneriaeth gref sy'n weithredol yma – neu mae risg y byddwn yn colli staff ymroddedig a brwdfrydig ac yn colli momentwm a chefnogaeth y cymunedau a'r partneriaid.

- Pa mor effeithiol mae rhaglenni arloeswyr Cyfuno wedi bod wrth ysgogi cydweithredu lleol?

Ar lefel leol i Wynedd, bu'r rhaglen Cyfuno'n greiddiol i sefydlu trafodaeth am ddiwylliant a chreu cyfleon i drechu tlodi trwy gydweithio. Cyn hynny, nid oedd yr un fforwm ffurfiol yn trafod diwylliant a gweithgareddau i greu cyfleon o fewn ein cymunedau anghenus. Bu i'r rhaglen sefydlu trefniadau cydweithio effeithiol rhwng y Cyngor, ysgolion, y sector dai a darparwyr diwylliannol – a hynny am y tro cyntaf. Roedd partneriaid y rhwydwaith yn amlwg yn gweld cyfleon trwy'r rhaglen, ond mae'n debyg mai un o brif rwystrau'r cydweithio oedd adnoddau ariannol digonol i wireddu ein huchelgais gan mai dim ond cyllid i gyflogi cydlynydd oedd ar gael. Croesawyd y cyllid i gefnogi Cydlynydd, gan yr oedd hyn yn cynyddu capasiti, ond heb ymrwymiadau gan y Llywodraeth ar gyfer y dyfodol, nid oes modd i'r Cyngor a'i bartneriaid gyllido parhad y rôl Cydlynydd na'r rhwydwaith.

Trwy'r rhaglen Cyfuno, bu modd i ni ddefnyddio cyllidebau Cymunedau'n Gyntaf i dalu ffioedd Business Lab sy'n gyfrifol am drwyddedu'r Llofnod Dysgu Teulu. Heb y cyfraniad yma yn y dyfodol, mae'n rhaid cwestiynu sut fydd modd cyllido'r weithgaredd yma sydd wedi ei groesawu gan yr ysgolion, y teuluoedd a'r partneriaid diwylliannol fel dull positif o wneud gwahaniaeth i gyrhaeddiad, presenoldeb ac agwedd teuluoedd tuag at addysgu a'r defnydd o ddiwylliant fel arf i wneud hynny.

Gobeithio bod yr uchod yn cynnig tystiolaeth bras i chi o'n safbwynt yma yng Ngwynedd. Yn amlwg, mewn cyfnod o ddiffyg adnoddau ariannol parhaol, mae ein cyllidebau diwylliannol yn parhau i fod o dan fygythiad a gallai unrhyw dystiolaeth a ddaw yn sgil eich hymchwiliad fod yn rhy hwyr i osgoi toriadau cyllidebol sydd ar y gorwel na fydd modd i ni eu gwyrdroi.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, neu os hoffech i ni drefnu i chi ymweld â'n prosiectau – byddem yn barod iawn i gydweithio gyda'r Pwyllgor.

Yr eiddoch yn gywir,

Roland Evans

Uwch Reolwr Diwylliant a Chymunedau

Cyngor Gwynedd